| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU** | **WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** | **General Certificate of Secondary Education**

165/54

**HANES**

**MANYLEB A: ASTUDIAETHAU MANWL AC AMLINELLOL O AGWEDDAU AR HANES CYMRU/LLOEGR A'R BYD**
**MANYLEB B: ASTUDIAETHAU MANWL A THEMATIG AC ASTUDIAETHAU O DDATBLYGIAD O AGWEDDAU AR HANES CYMRU/LLOEGR A'R BYD**

**PAPUR 1**

**ASTUDIAETH FANWL**

**04 – DIRWASGIAD, RHYFEL AC ADFERIAD, 1930-1951**

P.M. DYDD GWENER, 9 Mehefin 2006

1 awr (o arholiad 2 awr)

| Cwestiynau a atebwyd | Swyddfa'n unig |
|---|---|
| Cw.1 (Gorfodol) | /20 |
| Cw. | /25 |
| CYFANSWM | /45 |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch Gwestiwn 1 (Adran A) **a** *naill ai* Cwestiwn 2 *neu* Gwestiwn 3 o Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau yn y llyfryn hwn. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os nad yw'r llinellau a ddarparwyd yn y llyfryn hwn yn ddigon. Ysgrifennwch eich enw ar bob tudalen ychwanegol a nodwch yn glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch eich tudalennau ychwanegol y tu mewn i'r llyfryn hwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran-gwestiwn.

Cewch farciau am ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig.

I ennill y marciau llawn ar gyfer unrhyw gwestiwn, rhaid i'ch atebion fod yn berthnasol a rhaid iddynt wneud defnydd llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd.

**Ym mhob achos dylech gefnogi eich atebion trwy gyfeirio at eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc a ddewiswyd.**

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch Gwestiwn 1 yn Adran A a* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3 yn Adran B.*

## ADRAN A

(GORFODOL)

**1. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am fywyd yn ystod y Dirwasgiad.**

Astudiwch y ffynonellau isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn pob ffynhonnell. [20]

**<u>Ffynhonnell A</u>**




[Ffotograff yn dangos protest gan weithwyr iard longau sy'n ddi-waith (1936)]

*(a)* Defnyddiwch Ffynhonnell A, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i ddisgrifio'r gorymdeithiau newyn. [3]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell B**

> Yn ystod y 1930au daeth y radio'n boblogaidd iawn ond y sinema oedd yr adloniant mwyaf poblogaidd. Heidiai pobl i weld y *talkies* newydd, ac adeiladwyd sinemâu moethus newydd mewn sawl tref.

[Rhan o lyfr P. Barnes, R.P. Evans a P. Jones-Evans,
*TGAU Hanes ar gyfer Manyleb A CBAC* (2004)]

*(b)* Defnyddiwch y wybodaeth yn Ffynhonnell B, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i egluro sut roedd pobl yn treulio'u hamser hamdden yn y 1930au. [4]

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell C**

> Rwy'n falch nad oes mab gen i. Mae'n rhaid ei fod yn fusnes torcalonnus i wylio eich mab yn tyfu'n ddyn ac yna'n dirywio oherwydd nad oes ganddo waith i'w wneud. Rwyf fi wedi bod allan o waith bellach ers wyth mlynedd, a dim ond un ar ddeg diwrnod o waith a ges i lawr y pwll gydol yr amser hwnnw. Gwaith oedd yn arfer trefnu fy mywyd i gyd ond erbyn hyn mae'n rhaid i mi wynebu'r ffaith nad felly y bydd hi o hyn allan.

[Rhan o gyfweliad a roddwyd yn 1935 gan John Evans, glöwr di-waith o Gwm Rhondda, ar gyfer arolwg gan y llywodraeth ynglŷn â diweithdra]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell C fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio bywyd yn ystod y Dirwasgiad?
Eglurwch eich ateb trwy ddefnyddio'r ffynhonnell a'r hyn rydych chi'n ei wybod. [5]

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell CH**

> Er mai delwedd gyffredinol druenus sydd gan Gymru yn y 1930au, roedd mwy o setiau radio y pen o'r boblogaeth yng Nghaerdydd nag yn Slough, a mwy o geir nag yn Luton. Wrth astudio'r wasg leol, mae'n ymddangos nad oedd y cyfnod hwn yn un gwael o gwbl.

[Hanesydd modern, Deian Hopkin, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr cyffredinol, *Wales between the Wars* (1988)]

*(ch)* Yn Ffynhonnell CH mae'r awdur yn awgrymu nad oedd y 1930au mor ddrwg â hynny i bobl Cymru.
A yw hynny'n ddehongliad dilys?
*Yn eich ateb dylech ddefnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod am y testun, cyfeirio at y ffynonellau eraill sy'n berthnasol yn y cwestiwn hwn ac ystyried sut y daeth yr awdur i'r dehongliad hwn.* [8]



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Examiner only
*Arholwr yn unig*

## ADRAN B

*Atebwch* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3*.

**2. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am y rhyfel ar y ffrynt cartref.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [25]

| GWYBODAETH |
|---|
| Dioddefodd sifiliaid yn ddrwg ym Mhrydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd.<br>Mae'r ffotograff hwn yn dangos Abertawe ym mis Chwefror 1941. |



*(a)* (i) Beth oedd y Blitz? [2]

..........

..........

..........

..........

..........

..........



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(ii) Eglurwch pam roedd plant yn cael eu symud *(evacuated)*. [4]

(iii) Pa mor llwyddiannus oedd dulliau'r llywodraeth o gynnal ysbryd y bobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd? [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* (i) Disgrifiwch Adroddiad Beveridge. [3]

(ii) Eglurwch rôl Winston Churchill yn yr Ail Ryfel Byd. [4]



**Trosodd.**

*(c)* A fu eu profiad o'r Ail Ryfel Byd o fudd i bobl Cymru a Lloegr? Eglurwch eich ateb yn llawn. [7]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am Gymru a Lloegr wedi'r rhyfel.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [25]

**GWYBODAETH**

Cyflwynodd y llywodraethau Llafur wedi'r rhyfel nifer o newidiadau mawr. Mae'r ffotograff hwn yn dangos sefydlu 'Rheilffyrdd Prydain' *('British Railways')* ym mis Ionawr 1947.




*(a)* (i) Beth oedd gwladoli? [2]

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(ii) Eglurwch y sefyllfa economaidd yng Nghymru a Lloegr yn 1945. [4]

(iii) Pa mor bwysig oedd Adroddiad Beveridge? [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* (i) Disgrifiwch bolisi 'Cartrefi i Bawb' y llywodraeth Lafur. [3]

(ii) Eglurwch pam y collodd y Blaid Lafur etholiad cyffredinol 1951. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* A wnaeth llywodraethau Llafur 1945-1951 ddelio'n llwyddiannus â phroblemau cymdeithasol y cyfnod?
Eglurwch eich ateb yn llawn. [7]

CYDNABYDDIAETH

Atgynhyrchir y ffynhonnell o *Wales between the Wars* trwy ganiatâd caredig Trevor Herbert a Gareth Elwyn Jones, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1988.